# Croeso
# i'r
# Derbyn



## Staff yr Adran

Derbyn Ph – Mrs C Phillips

Derbyn R – Miss N Rees

Cynorthwywyr / Teaching Assisstants –

Mrs J Canfield

Mrs Rh Williams

Miss E Sleep

Miss E Rouse




# Ethos a Gweledigaeth

- Cyfle i bob plentyn lwyddo / Opportunity for every child to succeed.

- Ysgol sydd yn annog Cymreictod, caredigrwydd, gonestrwydd, annibyniaeth a pharch / A school that promotes Welshness, kindness, honesty, independence and respect.

- Ysgol gynhwysol sy'n sicrhau'r un cyfle i BOB plentyn / A school that ensures the same opportunities for EVERY child.



# Disgyblaeth a Gwrth Fwlio

Mae'r ysgol yn defnyddio strategaethau Arfer Adferol er mwyn ceisio datrys sefyllfa o gwmpo mas ac yn annog cyfrifoldeb personol am sefyllfaoedd o'r fath.

**Mae'r cwestiynau canlynol yn ddibynadwy wrth ymateb i ymddygiad heriol:**

- Beth ddigwyddodd?
- Beth oedd ar dy feddwl ar y pryd?
- Beth sydd wedi bod ar dy feddwl ers hynny?
- Pwy sydd wedi cael eu heffeithio gan dy weithredoedd di?
- Ym mha fford mae hyn wedi effeithio arnat ti?
- Beth wyt ti'n meddwl sydd angen i ti ei wneud i wneud yn iawn am y gweithredoedd yma?

**Bwriad y cwestiynau canlynol yw helpu'r rhai hynny a niweidiwyd gan weithredoedd pobl eraill:**

- Beth oeddet ti'n meddwl pan sylweddolaist ti beth oedd wedi digwydd?
- Beth sydd wedi bod ar dy feddwl ers hynny?
- Sut mae hyn wedi effeithio arnat ti a phobl eraill?
- Beth oedd y peth anoddaf i ti?
- Yn dy farn di, beth sydd angen digwydd i wneud yn iawn am y gweithredoedd yma?

# Behaviour and Anti-bullying Policies

Partneriaeth Gweithredu Adferol Cymru
Wales Restorative Approaches Partnership

Restorative Practice

**The school uses Restorative Practice strategies to resolve fallings out and to encourage personal responsibility to such situations.**

These questions are key when responding to challenging behaviour:

- What happened?
- What was going through your mind at the time?
- What has been on your mind since then?
- Who has been affected by your actions?
- How has it affected you?
- What do you think that you need to do to make up for your actions?

**The aim of the following questions is to help those who were affected by the actions of others:**

- What did you think when you realised what had happened?
- What has been on your mind since then?
- How has this affected you and others?
- What was the most difficult thing for you?
- In your opinion, what do you need to do to make up for your actions?

# Trefn y Dydd/ Daily Timetable

- Mae'r ysgol yn cychwyn i'r Derbyn am 8:40 y.b. Gofynnwn i chi sicrhau bod eich plentyn wedi cyrraedd yr ysgol yn brydlon. *School starts at 8:40 am for the Reception classes.* ***We kindly ask that you ensure your child arrives at school on time.***

- Gofynnwn i chi sicrhau eich bod yn casglu eich plentyn am 3:00 y.p wrth y brif glwyd. ***We kindly ask that you collect your child at 3pm at the main gate please.***

*Os fydd newid i drefniadau arferol casglu eich plentyn gofynnwn yn garedig i chi gysylltu â'r swyddfa neu anfon lythyr i gadarnhau'r trefniadau.

*If there is a change to your child's usual circumstances with regards to collection from school we kindly ask that you inform the office or notify us by letter to confirm the arrangements.**



# Meddyginiaeth / Medicine

Os oes angen meddyginiaeth ar eich plentyn yn ystod y dydd a dydych chi ddim yn gallu dod i'r ysgol i'w rhoi i'ch plentyn bydd angen llenwi ffurflen o'r swyddfa. Cedwir y feddyginiaeth yn y swyddfa gyda'r ffurflen. Mae copi o'r ffurflen ar wefan yr ysgol hefyd.

*If your child needs medication during the day and you are unable to come to school to give it to your child you will need to fill in a form from the office. The medication is kept in the office with the form. There is also a copy of the form on the school's website.*

# Trefn y Dydd/ Daily Timetable


amser cylch


sesiwn sgiliau


amser carped


gweithgareddau


amser cinio


meddwlgarwch


sesiwn ganu


gweithgareddau


amser stori


amser mynd adre


amser tacluso


Ysgol Goed


ymarfer corff


coginio

# Ffrwyth a Chinio / Fruit and Lunch

Mae hawl gan blant y Derbyn gael cinio ysgol am ddim. Croeso i'r plant ddod â phecyn bwyd os ydyn nhw'n dymuno. / *Reception children are entitled to a free school lunch. The children are more than welcome to bring a packed lunch if they wish.*




http://www.broccolibob.co.uk/

Mae croeso i'r plant ddod ag **un darn o ffrwyth** i'r ysgol i gael fel eu byrbryd yn ystod y dydd. Gofynnwn yn garedig bod y ffrwyth yn cael eu cadw mewn potyn sydd wedi cael eu labeli ag enw eich plentyn. / *The children are welcome to bring* ***one piece of fruit*** *to have as a snack during the day. Can we kindly request that the fruit is labelled clearly with your child's name or is stored in a labelled box.*



# Cysyniad Ysgol Gyfan : Newid / Change

- Cynllunio fel adran er mwyn sicrhau cysondeb/ Planning as a department for consistency.
- Llais y plentyn yn bwydo mewn i'r thema / Childrens' voice contributes to planning.
- Dylanwad disgybl / Pupil influenced.

Mae'r Cwricwlwm yn galluogi eich plant i gyflawni'r 4 diben ac yn eu paratoi ar gyfer dysgu parhaus.
It's a curriculum based on the 4 purposes and focuses on progression.

Mae dysgu trwy gysyniad yn gallugoi'r plant i:

- dderbyn addysg eang a chytbwys
- gysylltu syniadau
- dderbyn profiadau bywyd go iawn
- ddilyn eu diddordebau



Newid / Change

Learning through concept allows the children:
- To receive a broad and balanced education
- Connect ideas
- To, over time, make sense of their learning
- To receive real life experiences
- To pursue their own particular interests and passions

HTTPS://WWW.YOUTUBE.COM/WATCH?V=ECAB-KRQ7NM

# Derbyn



Cysyniad / *Concept*: **Newid / *Change***

Cwestiwn/ *Question*: **Sut fedrai helpu fy hun ac eraill? / *How might I help myself and others?***


Naratif / *Narrative*:


Y tymor hwn fe fydd y plant yn cyfarwyddo gyda threfniadau ac addasiadau i ddiwrnod llawn amser yn yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys sawl cyfnod o bontio yn ystod eu diwrnod a sefyllfaoedd newydd i oresgyn e.e. o'u cartref i'r ysgol, o'r dosbarth i'r neuadd ginio ac adnabod eu ffrindiau ac athrawon newydd. Byddant yn datblygu eu gallu i fynegi a chyfathrebu eu teimladau a chydnabod teimladau eraill. Fe fydd y plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o gydweithio a chwarae gyda'i ffrindiau. Bydd cyfle i'r plant archwilio eu hawyrgylch dysgu newydd a datblygu sgiliau diri trwy ddysgu wrth eraill.

*This term the children will learn new routines and adjust to being in school all day. This will include arriving in school, going for lunch, meeting new friends and teachers. Children will learn to express themselves, including how they and others feel. The children will engage in a range of physical activities where they will begin to learn how to work and play alongside their new friends. Children will have an opportunity to explore their new learning environments, developing new skills and learning from oneanother.*

**Caredigrwydd. Cymreictod. Cymuned.**

# Cwricwlwm Newydd / New Curriculum.



# Tasgau Darllen/ Reading Tasks










1

## Beth sydd yn y llun? / What's in the picture?

Ydych chi'n gallu trafod y llun gyda'ch plentyn? Dyma syniadau i chi. Can you discuss the picture with your child? Here are some ideas for you.

Beth wyt ti'n gallu gweld? What can you see?
Pa liwiau wyt ti'n gallu gweld? What colours can you see?
Pa dŷ yw dy ffefryn? Which house is your favourite?
Sut mae'r tywydd yn y llun? How's the weather in the picture?
Wyt ti'n hoffi mynd yn y car? Do you like going for a trip in the car?
Ble mae'r holl bobl? Where might all the people be?
Beth weli di yn yr awyr? What can you see in the sky?

### Geirfa / Vocabulary

| | | |
|---|---|---|
| tŷ - house | car - car | beic - bike |
| haul - sun | cymylau - clouds | adar - birds |
| ffenest - window | coeden - tree | mainc - bench |
| aderyn - bird | heol - road | drws - door |
| blodyn - flower | simnai - chimney | golau stryd - street lamp |



2


## Beth sydd yn y llun? / What's in the picture?


Ydych chi'n gallu trafod y llun gyda'ch plentyn? Dyma syniadau i chi. Can you discuss the picture with your child? Here are some ideas for you.

Pa bryfyn wyt ti'n gallu gweld? What insect can you see?
Pwy tybed sy'n byw yn y tŷ yn y pellter? Who lives in the house in the distance?
Pam mae balwnau yn yr awyr? Why are there balloons in the sky?
Sawl balŵn weli di? How many balloons can you see?
Sawl blodyn weli di? How many flowers are in the picture?Sut mae'r llun yn gwneud i ti deimlo? How does the picture make you feel?

### Geirfa / Vocabulary

| | | |
|---|---|---|
| tŷ - house | blodyn - flower | gwair - grass |
| balŵn - balloon | pili pala - butterfly | cymylog - cloudy |
| heulog - sunny | gwyntog - windy | cae - field |
| hapus - happy | pwyllog - calm | unig - lonely |
| saith - seven | tri - three | dau - two |


Ysgol Gymraeg
Castell-nedd
'Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn lwyddo'
Dwlu Darllen
Enw:
Dosbarth:


Fy Nghofnod Darllen
My Reading Record
Llyfr/deunydd darllen
Book/Other
Dyddiad
Date
Tri Mochyn Bach
29.09.23
Fy Nghofnod Darllen
My Reading Record
Llyfr/deunydd darllen
Book/Other
Dyddiad
Date
Llofnod Rhiant/Sylwadau
Parent's Signature /Comments

# Ymarfer Corff/ *Physical Education*

**Ymgylchiadau Cyffredinol / *General Circumstances***

Gofynnwn i'r plant ddod i'r ysgol ar ddiwrnodau ymarfer corff mewn esgidiau a dillad sy'n addas – e.e. trainyrs a trowsus loncian/leggings.

*We ask that children come to school on P.E days in comfortable and appropriate clothes - e.g. trainers, joggers/leggings.*

**Ymgylchiadau presennol / *Current Circumstances***

-Dosbarth Mrs Phillips – Dydd Iau / Thursday

-Dosbarth Miss Rees – Dydd Iau / Thursday



# Gwisg Ysgol/ Schoool Uniform








"Rwy'n flin mae fy nghrys yn frwnt ond mae'n dangos fy mod yn dysgu / ***I'm sorry that my shirt got dirty but it shows I've been learning!***"

# Sesiynau Ysgol Goed / Forest School Sessions

Prif bwriad Ysgol Goed yw i annog plant i fwynhau, gwerthfawrogi a chwilota yn y byd natur. Mae'n cynnig cyfleoedd i blant ddatblygu eu strwythur holistaidd ac i asesu a rheoli risg yn annibynnol. Yn ganolog i hyn mae'r amgylchedd drwy brofi'r tymhorau a rhyfeddodau'r byd natur o'u cwmpas. Magu hyder a pharch at bobl a natur yw ein nod a rhoi'r cyfle i bob plentyn lwyddo.

*The main aim of Forest School is to encourage children to enjoy, appreciate and explore the natural environment. The approach promotes the children's holistic development and to confidently assess and manage risks independently. Central to all of this is the environment. Children experience the seasons, the wonders of nature and the world around them. Forest School's aim is to boost children's self-confidence and respect to themselves, others and nature and to ensure they know how it feels to succeed.*

## Ymgylchiadau presennol / *Current Circumstances*

-Dosbarth Mrs Phillips – Dydd Mawrth / Tuesday

-Dosbarth Miss Rees – Dydd Mawrth / Tuesday



# Tudalen Trydar/ Twitter Page

Mae gan y dosbarthiadau Derbyn gyfrif Trydar caëedig: @cnedd_Derbyn. A fyddech gystal â danfon eich enw defnyddiwr i'r ysgol cyn ceisio ymuno fel ein bod yn gwybod pwy ydych chi cyn derbyn eich cais.

The Reception classes have a closed Twitter (now known as 'X') group. The username is @cnedd_Derbyn. Please send your Twitter handle along with your child's name to school (via letter/ email) and request to follow our page. We can only accept your request once we've received your handle.

**@cnedd_Derbyn**

# Cyswllt rhieni / Parental contact

## Cofiwch fod ein drws o hyd ar agor!

Mae gennym bolisi 'drws agored.'
Ar hyn o bryd rydym ar gael ar ddiwedd y dydd neu ar gael am sgwrs dros y ffôn i drafod unrhyw faterion sydd yn eich poeni.

Gallwch drefnu apwyntiad os yn angenrheidiol ar amser sydd yn gyfleus i chi ac i'r ysgol.

## Peidiwch â cholli cwsg - dewch am sgwrs!

## *Remember our door is always open!*

*We have an 'open door' policy. We are usually available at the end of the day to discuss any matters that may concern you.*
*If you wish to discuss anything regarding your child, please don't hesitate to contact the school and have a discussion over the phone.*

## *A problem shared is a problem halved!*




# Gwefannau Defnyddiol / Useful Websites

www.yggcastellnedd.co.uk



# Gwefannau Defnyddiol / Useful Websites






# Apps/Gwefannau Addysgol/ *Educational Apps/Website*

Cyw a'r Wyddor

Byd Cyw

Magi Ann
(Sawl ap ar gael/
Many apps available)

Tric a Chlic

Tric a Chlic 2

Dewin a Doti

Apiau Selog
(Sawl un ar gael/
many available)




Ap Geiriadur

Caru Canu

# Yr Ystafell Ddosbarth / The Classroom





# Diolch!
# Unrhyw gwestiynau?

